LEWIS HUDOL (fl. yn y 16eg ganrif), bardd

Enw: Lewis Hudol
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: David James Bowen

Priodolir y cywydd ' Y ddyn winfaeth ddynionfawr ' iddo mewn pedair llawysgrif: Cwrtmawr MS. 5 (386), Cwrtmawr MS. 27 (329), N.L.W. MS. 1246 (42), a N.L.W. MS. 5269 (2586), ond fe'i priodolir hefyd i Ieuan ap Gronwy : Pen. MS. 99 (57), Mostyn MS. 160 (383), Ieuan ap Huw (Jesus Coll. MS. 17 (675)), ac mewn dwy lawysgrif ni roir enw'r awdur: Pen. MS. 66 (42), Mostyn MS. 161 (292); ' *ai kavadd ai kant*.' Yn Mostyn MS. 161 y digwydd y copi cynharaf (c. 1563), ac os Lewis Hudol ydyw'r awdur rhydd hynny syniad am ei gyfnod. Priodolir ' Er athrod trwm weithred traw ' yn Cardiff MS. 12 (295) iddo hefyd.

Awdur

Yr Athro David James Bowen

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu